# HELIMEDS




## 25 MLYNEDD O ACHUB BYWYDAU

MLYNEDD 25 YEARS

Elusen Ambiwlans Awyr Cymru | Wales Air Ambulance Charity

HAF 2026

# Croeso i Rifyn Haf Helimeds

**Mae pob cyflawniad sy'n ymddangos ar y tudalennau hyn wedi bod yn bosibl oherwydd pobl fel chi. Diolch am ein helpu ni i barhau i ddarparu gofal critigol i'r rhai hynny sydd ei angen fwyaf, pryd bynnag a ble bynnag y mae ei angen.**

Croeso i rifyn haf Helimeds, a diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus i Ambiwlans Awyr Cymru.

Wrth i ni ddathlu ein pen-blwydd yn 25 oed, mae'r rhifyn hwn yn dathlu'r bobl, y digwyddiadau a'r partneriaethau anhygoel sy'n helpu i gadw ein gwasanaeth sy'n achub bywydau ar waith ledled Cymru.

Yn y rhifyn hwn, byddwch yn darllen am ein Cinio Gala arbennig i ddathlu 25 mlynedd, a fynychwyd gan ein Noddwr Brenhinol, Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru, a gododd y swm anhygoel o£180,000 i'r Elusen. Rydym hefyd yn dathlu her Cerdded Cymru eleni a'r raffl pen-blwydd, a gododd arian hanfodol gyda'i gilydd i gefnogi digwyddiadau'r dyfodol.

Rydym yn tynnu sylw at gefnogwyr anhygoel, gan gynnwys y gwirfoddolwr profiadol Graham Hirst, a gafodd ei gydnabod am ei ymroddiad i'r Elusen, a'r cyn glaf Sue Davies, sydd wedi dewis gadael rhodd yn ei hewyllys fel diolch parhaus am y gofal a gafodd.

Byddwch hefyd yn dysgu sut mae sefydliadau megis Undeb Amaethwyr Cymru a Booker Cardiff yn gwneud gwahaniaeth sy'n achub bywydau drwy eu cefnogaeth a'u hymdrechion codi arian.

Mae eich cefnogaeth yn helpu i gynnal gwasanaeth sy'n dod â gofal critigol uwch i bobl ledled Cymru.

Mae ein gwasanaeth, sydd dan arweiniad meddygon ymgynghorol, yn mynd â thriniaeth o safon ysbyty i gleifion a, phan fo angen, yn eu trosglwyddo'n uniongyrchol i'r ysbyty mwyaf priodol ar gyfer eu salwch neu anaf. Mae'n cael ei ddarparu drwy bartneriaeth unigryw rhwng y trydydd sector a'r sector cyhoeddus.

Er mwyn cadw'r hofrenyddion yn yr awyr a cherbydau ymateb cyflym ar y ffordd, mae Elusen Ambiwlans Awyr Cymru yn dibynnu ar gyfraniadau cyhoeddus i godi £13 miliwn bob blwyddyn.

Darperir y gwaith o redeg ein hofrenyddion gan Gama Aviation, trwy gontract gyda'r Elusen.

Mae'r Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS) yn darparu meddygon ymgynghorol ac ymarferwyr gofal critigol medrus iawn y GIG i weithio yng ngherbydau'r Elusen.

Mae'r gofal critigol uwch hwn yn cynnwys rhoi anaesthesia, rhoi trallwysiadau gwaed a chynnal mân lawdriniaethau yn y fan a'r lle.

Fel gwasanaeth Cymru gyfan, bydd ein criwiau ymroddedig, ble bynnag y maen nhw wedi'u lleoli, yn teithio ar hyd a lled y wlad i ddarparu gofal brys sy'n achub bywydau.



# Cefnogwr yn Sir Fynwy yn ennill £3,000 yn raffl pen-blwydd Ambiwlans Awyr Cymru



**Mae cefnogwr o Sir Fynwy wedi ennill raffl pen-blwydd Ambiwlans Awyr Cymru yn 25 oed ar ôl prynu 32 o docynnau!**

Roedd Mariana Robinson wrth ei bodd yn ennill y wobr gyntaf o £3,000 yn y raffl ddiweddar. Enillydd yr ail wobr oedd Anastasia Konstantynova o Abertawe, a enillodd £300, ac aeth y drydedd wobr i John Martin o'r Barri, a enillodd £150.

Gwerthwyd dros 60,500 o docynnau ar gyfer y raffl, a gynhaliwyd rhwng 25 Mawrth a 1 Mehefin, a chodwyd dros £82,000 ar gyfer yr Elusen Cymru gyfan.

Dywedodd Mariana, sy'n 72 oed: "Roeddwn i wrth fy modd mai fi oedd yr enillydd, ac roedd wedi digwydd ar adeg amserol iawn. Roeddwn i wedi cael bil mawr y diwrnod cynt am fy nghar, sy'n 23 oed, felly dyna pam ei fod yn amserol."

Dywedodd y gallai roi rhywfaint o'i henillion tuag at wyliau yn ddiweddarach yn y flwyddyn neu brynu ffôn clyfar neu gyfrifiadur newydd fel anrheg iddi hi ei hun.

Mae Mariana, sy'n artist, yn gefnogwr brwd o'r Elusen Cymru gyfan a bydd yn rhoi llun dyfrlliw gwreiddiol i'r elusen ar gyfer codi arian yn y dyfodol.

Wrth fyfyrio ynghylch pam ei bod yn cefnogi'r elusen sy'n achub bywydau, dywedodd Mariana: "Mae gen i gyflyrau iechyd cymhleth, ac rwy'n byw mewn ardal wledig eithaf anghysbell; mae'n ddigon posibl y bydd angen i mi ddefnyddio'r ambiwlans awyr fy hun ryw ddiwrnod.

"Rwy'n ddiolchgar i'r gwirfoddolwyr a'r tîm sy'n cynnal y gwasanaeth brys gwerthfawr hwn. Dydy hofrenyddion ddim yn rhad i'w rhedeg na'u newid am rai newydd!"

Yn 2026, mae'r Elusen yn dathlu ei phen-blwydd yn 25 oed. Mae'r gwasanaeth wedi gwneud dros 57,000 o ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod hwnnw, gan ddarparu triniaeth sy'n achub bywydau yn rhai o'r amgylchiadau mwyaf heriol a rhoi'r cyfle gorau posibl i gleifion oroesi ac adfer.

Dywedodd Phae Jones, Cyfarwyddwr Cynhyrchu Incwm yr Elusen: "Llongyfarchiadau i holl enillwyr ein raffl i ddathlu ein pen-blwydd yn 25 oed, a diolch i bawb a gefnogodd yr ymgyrch codi arian ar gyfer y garreg filltir arbennig hon. Cododd y raffl y swm anhygoel o £82,000 i'n Helusen sy'n achub bywydau. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb a brynodd docyn ac a gymerodd ran yn y raffl. Rydych chi i gyd wedi chwarae rhan yn achub bywydau ledled Cymru.

"Llongyfarchiadau i Mariana, sydd wedi cefnogi ein helusen ers blynyddoedd lawer. Mae prynu 32 o docynnau yn sicr wedi talu ar ei ganfed, gobeithio y bydd hi'n mwynhau gwario'r arian mae hi wedi'i ennill.

"Mae angen i'n Helusen godi £13 miliwn bob blwyddyn i gadw ein hofrenyddion yn yr awyr a'n cerbydau ymateb cyflym ar y ffordd. Bydd ein raffl i ddathlu ein pen-blwydd yn 25 oed yn ein helpu ni i barhau i fod yno i bobl Cymru pan fyddan nhw ein hangen ni fwyaf. Diolch i bawb a gymerodd ran ac a gyfrannodd at ein hachos."




# Booker Cardiff yn brandio lori HGV i gefnogi Elusen Ambiwlans Awyr Cymru

Mae Booker Cardiff wedi cefnogi Ambiwlans Awyr Cymru drwy hyrwyddo brand yr Elusen ar un o'i loriau cerbydau nwyddau trwm.

Mae'r lori sy'n dangos y brandio newydd bellach ar y ffordd, gan helpu i godi ymwybyddiaeth o'r Elusen ledled Cymru.

Bydd Booker Cardiff hefyd yn defnyddio'r lori i gefnogi'r Elusen gyda chludiant yn ystod ei digwyddiad Beicio 100km ar ddydd Sul 6 Medi.

Roedd y cwmni'n awyddus i gefnogi'r Elusen Cymru gyfan hon, ar ôl i un o griwiau'r Elusen gael ei alw at aelodau o deulu Steve Hughes, un o weithwyr y cwmni, yn 2022.

Roedd mam a nith Steve yn dychwelyd adref o daith siopa pan oedden nhw mewn damwain traffig ar y ffordd.

Dywedodd Steve, Uwch Glerc Gweithrediadau ar gyfer Booker Cardiff: "Yn drist iawn, ni ellid achub fy mam na'm nith. Roedd Ambiwlans Awyr Cymru yn wych wrth ddelio â sefyllfa mor heriol a dangoswyd y parch mwyaf at ein teulu.

"Mae'n hanfodol bod elusen mor bwysig ag Ambiwlans Awyr Cymru yn cael y cyllid a'r ymwybyddiaeth sydd eu hangen arni i barhau i ddarparu gwasanaeth mor wych i bobl Cymru."

Mae Steve yn ddiolchgar bod Booker Cardiff yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r Elusen. Dywedodd: "Hoffwn ddiolch hefyd i Booker am adael i ni fod yn eiriolwyr dros yr Elusen hon, gan wneud rhywbeth sydd heb gael ei wneud o'r blaen gan Booker. Efallai nad yw brandio cerbyd yn golygu llawer i rai pobl, ond i ni, dyma'r ffordd berffaith o ddangos ein cefnogaeth a pharhau i godi ymwybyddiaeth o wasanaeth mor hanfodol."

Dywedodd Phae Jones, Cyfarwyddwr Cynhyrchu Incwm Ambiwlans Awyr Cymru: "Diolch i bawb yn Booker Cardiff. Rydym yn wir gwerthfawrogi eich cefnogaeth i'n Helusen. Mae'n fraint o'r mwyaf, bod Steve, ar ôl y golled drasig o'i fam a'i nith, am i Booker gefnogi Ambiwlans Awyr Cymru, ac mae hon yn ffordd wych o wneud hynny.

"Mae'r lori'n edrych yn wych. Fedrwch chi ddim ei cholli hi, a bydd hi'n codi ymwybyddiaeth o Ambiwlans Awyr Cymru i bawb ar y ffyrdd. Rydym hefyd wrth ein bodd bod y cwmni wedi addo ei gefnogaeth yn ystod ein digwyddiad Beicio 100km ym mis Medi.



# Charlies yn Codi Swm Anhygoel o **£22,927** ar gyfer Elusennau

Cododd staff ymroddedig a chwsmeriaid hael Charlies bron i £23k ar gyfer elusennau yn 2025, **gan ddod â chyfanswm y cyfraniadau dros y blynyddoedd gan y cwmni i'r swm rhyfeddol o £197k.**

Cododd staff ymroddedig a chwsmeriaid hael Charlies bron i £23k ar gyfer elusennau yn 2025, gan ddod â chyfanswm y cyfraniadau dros y blynyddoedd gan y cwmni i'r swm rhyfeddol o £197k.

Bydd y cyfanswm yn cael ei rannu fel bod £11,111 yn mynd i Ambiwlans Awyr Cymru, £4,110 yn mynd i Ambiwlans Awyr Canolbarth Lloegr a £7,452 yn mynd i Lingen Davies, gan sicrhau bod cymorth hanfodol yn cyrraedd ein cymunedau.

Mae Charlies yn enwog am ddarparu dos ychwanegol i gwsmeriaid o'r hynny sy'n gwneud tymor yr ŵyl for hudol ac mae cwsmeriaid cefnogol wedi mynd yn ddwfn i'w pocedi i gefnogi'r ceirw, ietis, pengwiniaid ac anifeiliaid fferm sydd i gyd yn canu. Yn ogystal â hyn, roedd cynlluniau eraill i godi arian yn cynnwys noson addurno Coed Nadolig, gweithdai gwneud torchau a raffl Nadolig i staff.

Fel sydd wedi dod yn draddodiad Nadolig i Charlies, am bob coeden Nadolig go iawn a werthwyd rhoddwyd £2 i achos da. Eleni, roedd cyfanswm y coed a werthwyd ar draws yr holl siopau yn dod i bron i bron i 4000.

Dywedodd Becky Lloyd, Rheolwr Gyfarwyddwr Charlies: "Rydym yn hynod ddiolchgar am garedigrwydd a haelioni parhaus ein cwsmeriaid o un flwyddyn i'r llall.

"Rydym yn falch o roi swm mor fawr o arian i elusennau mor werth chweil. Y flwyddyn nesaf, bydd ein cyfanswm dros y blynyddoedd ar gyfer elusennau yn fwy na £200,000, felly roeddem am ddiolch o galon i bawb sydd wedi rhoi, wedi cymryd rhan neu wedi cefnogi ein digwyddiadau. Mae eich cyfraniadau'n gwneud gwahaniaeth go iawn."

Dywedodd Phae Jones, Cyfarwyddwr Cynhyrchu Incwm ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru: "Rydym mor ddiolchgar i Charlies, ynghyd â'u staff ymroddedig a'u cwsmeriaid ffyddlon, am eu hymrwymiad parhaus i Ambiwlans Awyr Cymru. Mae eu cyfraniad rhyfeddol unwaith eto eleni yn cryfhau ein gwaith sy'n achub bywydau. Mae eich cefnogaeth chi wir yn ein helpu ni i gyrraedd y rhai hynny sydd ein hangen ni fwyaf ac yn cadw ein hofrenyddion yn yr awyr a'n cerbydau ymateb cyflym ar y ffordd."

> "Rydym mor ddiolchgar i Charlies, ynghyd â'u staff ymroddedig a'u cwsmeriaid ffyddlon, am eu hymrwymiad parhaus i Ambiwlans Awyr Cymru"

**Dywedodd Phae Jones, Cyfarwyddwr Cynhyrchu Incwm**



Steven pictured with Wales Air Ambulance Regional Fundraising Manager, Emily Bell.

# Capten Golff yn codi arian ar gyfer gwasanaeth sy'n achub bywydau!

Mae un o wirfoddolwyr Ambiwlans Awyr Cymru 'wrth ei fodd' yn rhoi siec i'r Elusen ar ôl codi arian ar gyfer y gwasanaeth sy'n achub bywydau yn ystod ei flwyddyn fel Capten Golff y Dynion.




Dywedodd Dilwyn Roberts, sy'n 70 oed ac yn chwarae yng Nghlwb Golff Dinbych: "Un o freintiau bod yn gapten clwb yw eich bod yn cael enwebu'r Elusen o'ch dewis.

'Yn amlwg, gan fy mod yn gwirfoddoli i Ambiwlans Awyr Cymru, y dewis naturiol oedd mai nhw ddylai elwa yn ystod fy mlwyddyn rhwng 2024 a 25."

Ychwanegodd: "Fe wnaethon ni gynnal ambell ddigwyddiad, gan gynnwys Diwrnod y Capten a gêm rhwng y Capten a'r Is-Gapten.

"Dydd Iau yw Diwrnod Cystadleuaeth y Dynion; mae gennym 'dŵhanner ffordd' ar y 9fed twll, felly byddwn yn treulio'r bore'n darparu te a choffi, a helpodd i godi arian hefyd."

Mae'r tad-cu i dri o blant wedi helpu i godi £1,250. Dywedodd: "Mae'n costio cymaint i ariannu'r gwasanaeth; mae pobl yn synnu pan fydda i'n dweud wrthynt.

"Rwy'n ddiolchgar i bawb a roddodd arian ac a'm cefnogodd yn ystod fy mlwyddyn fel Capten."

Dywedodd Dilwyn, sydd wedi bod yn briod â Janet ers 47 mlynedd: "Pan wnes i ymddeol, roeddwn i'n gwybod y byddai gen i ddigon i'm cadw'n brysur oherwydd fy niddordebau.

"Wrth fyw yn Sir Ddinbych, mae fy nghlwb pêl-droed lleol ym Mae Colwyn a hyd at bedwar mis yn ôl roeddwn i'n gyfarwyddwr yno.

"Mae'n dal i fod yn rhywbeth rwy'n teimlo'n angerddol yn ei gylch, ond nawr rwy'n cael eistedd yn ôl a mwynhau'r gêm, boed hynny gartref neu oddi cartref."

Aeth yn ei flaen: "Ond diolch i fy ngwraig, des i'n wirfoddolwr i Ambiwlans Awyr Cymru yn ôl yn 2019.

"Dechreuodd hi siarad â chynrychiolydd wrth siopa yn Tesco ym Mhrestatyn a dywedodd hi y byddai ei gŵr yn yrrwr neu'n helpu gyda chasgliadau bwced.

"O ganlyniad i hynny, daeth y ddau ohonom yn wirfoddolwyr ac rydym wedi gwneud cymaint o ffrindiau dros y saith mlynedd diwethaf; mae 'na griw da yng Ngogledd Ddwyrain Cymru."

Mae Ambiwlans Awyr Cymru yn cynnig amrywiaeth o rolau gwirfoddoli ar gyfer gwahanol ddiddordebau a sgiliau. Gall gwirfoddolwyr helpu i drefnu a chymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian yn y gymuned neu wirfoddoli yn eu siop Elusen leol. Os oes gennych ddiddordeb mewn rolau gwirfoddoli, mae rhagor o fanylion ar ein gwefan, ac mae yna ffurflen gais hefyd:
**www.walesairambulance.com/volunteering**

# STRAEON CODI ARIAN

Fel sy'n wir bob amser, fydden ni ddim yn gallu darparu ein gwasanaeth sy'n achub bywydau i bobl Cymru heboch chi, ein cefnogwyr. Fydden ni byth wedi dathlu ein pen-blwydd yn 25 oed heb eich cefnogaeth ymroddedig chi. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi codi arian ar gyfer yr Elusen. Yn ystod y 25 mlynedd diwethaf, mae pob person sydd wedi codi arian wedi chwarae rhan bwysig yn achub bywydau ledled y wlad.

## Merch ysgol yn codi £300 ar gyfer elusen a ddaeth i'w helpu pan oedd yn fabi

Mae merch ysgol garedig wedi codi £300 i'r Elusen ar ôl iddi fod angen y gwasanaeth pan oedd yn fabi.

Trefnodd Rhian Ferraro, sy'n 10 oed ac o Gastell Newydd Emlyn, digwyddiad gwerthu cacennau fel rhan o gael ei bathodyn elusen yn y Brownis.

Pan oedd Rhian ond yn ddeg wythnos oed, stopiodd anadlu tra roedd hi gartref a chafodd ei rhuthro i'w meddygfa leol. Cafodd Ambiwlans Awyr Cymru ei hanfon i'r lleoliad yn gyflym a'i hedfan i'r ysbyty yng Nghaerdydd.

Cafodd Rhian, a oedd â thwll mawr yn ei chalon, ei monitro yn yr ysbyty am ddwy noson cyn dychwelyd adref.

Mae hi'n aelod o Brownis Castellnewydd Emlyn Cylch Teifi a gwerthodd ei 176 o gacennau a chacennau caws blasus mewn dim ond 20 munud!

## Cinio Gala yn codi dros £6,000

Mae cinio gala llwyddiannus wedi codi dros £6,000 i Ambiwlans Awyr Cymru.

Trefnodd Gwesty'r Arglwydd Nelson yn Aberdaugleddau, ei ail gala ar gyfer y gwasanaeth sy'n achub bywydau ar ôl i'r gyn-glaf Sean Luby a'i deulu gysylltu â nhw i gynnal y digwyddiad codi arian.

Daeth dros 100 o bobl i'r cinio gala poblogaidd a gynhelir dwywaith y flwyddyn, a godwyd £6,020 ar gyfer y gwasanaeth Cymru gyfan a ddaeth i helpu Sean, sy'n barafeddyg, yn 2023.

Cynhaliwyd arwerthiant a raffl hefyd yn y digwyddiad ac roedd aelodau o'r teulu Luby, yn ogystal â ffrindiau a chefnogwyr eraill yn bresennol.

Gyda'i gilydd, mae'r ddau ginio gala wedi codi tua £11,000 ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru.

## Gorsaf Dân yr Wyddgrug yn codi £4,500 ar gyfer achosion da

Cododd criw Gorsaf Dân yr Wyddgrug swm anhygoel o £4,500 ar gyfer achosion da yn dilyn ei choelcerth ac arddangosfa tân gwyllt flynyddol.

Cafodd y digwyddiad poblogaidd, a gynhaliwyd yng Nghlwb Pêl-droed Alexandra yr Wyddgrug, gefnogaeth dda gan y cyhoedd. Bob blwyddyn, mae'r arddangosfa'n codi arian ar gyfer elusennau o'i dewis er mwyn 'helpu i gefnogi eu gwaith yn helpu'r gymuned leol'.

Aeth y Prif Swyddog Tân, Dawn Docx, i ddigwyddiad diweddar yng Ngorsaf Dân yr Wyddgrug i ddathlu ymdrechion y criw dros gyfnod coelcerthi 2025.

Roedd Ambiwlans Awyr Cymru wrth ei bodd yn mynychu'r digwyddiad a derbyniodd siec o £1,500, ochr yn ochr â Thîm Chwilio ac Achub Gogledd Ddwyrain Cymru a'r Ganolfan Adsefydlu yn dilyn Strôc yn Ysbyty Cymunedol Glannau Dyfrdwy, a oedd hefyd yn fuddiolwyr y digwyddiad.

## Cwmni o dde Cymru yn rhoi 12 camera fideo a wisgir ar y corff

Mae cwmni o dde Cymru wedi rhoi'r rhodd anhygoel o 12 camera fideo a wisgir ar y corff i Ambiwlans Awyr Cymru.

Mae'r Elusen yn falch iawn o fod wedi cael y rhoddion ymarferol hyn gan M.R.S. Communications, a fyddai wedi costio dros £10,000.

Mae'r cwmni'n chwarae rhan allweddol ym maes cyfathrebu radio, gwella diogelwch ac atal troseddu.

Ymwelodd Carl Duarte o M.R.S. Communications â phencadlys Ambiwlans Awyr Cymru yn Nafen, Llanelli, i ddarparu'r dyfeisiau cyfathrebu hanfodol.

Yn ogystal â chefnogi'r criw sy'n achub bywydau gyda digwyddiadau meddygol, bydd yr offer hefyd o werth enfawr yn ystod unrhyw ddigwyddiadau mawr.

## Capten y Merched yn codi arian ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru

Mae golffwyr hael wedi helpu i godi bron i £900 i'r Elusen.

Helpodd y menywod yng Nghlwb Golff St Melyd, Prestatyn, i godi arian ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru ar ôl i Gapten Menywod y clwb ar gyfer 2024/25, Lesley Williams, enwebu'r gwasanaeth sy'n achub bywydau fel Elusen y Flwyddyn.

Dewiswyd yr Elusen gan Lesley am fod ei diweddar wr, Neville, a'i ffrind gorau Charlie Clubb, ill dau yn gefnogwyr brwd o Ambiwlans Awyr Cymru. Roedd y ffrindiau'n codi arian yn rheolaidd.
Drwy gydol tymor Lesley fel Capten y Merched, cynhaliwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau codi arian yn y clwb, gan gynnwys rafflau, gweithgareddau o gwmpas digwyddiad i ddathlu dechrau blwyddyn y capten newydd, rhoddion yn lle cardiau Nadolig a rhoddir ar goeden Nadolig, a chardiau er cof am anwyliaid.

Un o syniadau mwyaf poblogaidd Lesley o ran codi arian oedd gwahodd aelodau i gasglu unrhyw beli golff a ddefnyddiwyd neu a ganfuwyd a'u rhoi mewn bin sbwriel plastig mawr. Casglwyd nifer anhygoel o beli, sef 2,011.

Dywedodd Carl: "Yn M.R.S. Communications, rydym yn falch o gefnogi'r Elusen Ambiwlans Awyr Cymru a'r gwaith hanfodol maen nhw'n ei wneud bob dydd i achub bywydau. Drwy roi camerâu a wisgir ar y corff, rydym yn gobeithio darparu cymorth ymarferol sy'n gwella diogelwch, tryloywder a dealltwriaeth weithredol eu criwiau. Mae'r bartneriaeth hon yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddefnyddio technoleg er gwell a rhoi'n ôl i sefydliadau sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i gymunedau ledled Cymru."






# Undeb Amaethwyr Cymru yn codi £65,000 i Ambiwlans Awyr Cymru yn ystod partneriaeth elusennol tair blynedd

**Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi codi £65,000 i Ambiwlans Awyr Cymru yn ystod partneriaeth elusennol tair blynedd gyda'r gwasanaeth sy'n achub bywydau.**

Enwebodd Ian Rickman, Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru, Ambiwlans Awyr Cymru fel partner elusennol yr Undeb am ei gyfnod yn y swydd rhwng 2023 a 2026.

Dywedodd Dr Sue Barnes, Prif Weithredwr Elusen Ambiwlans Awyr Cymru: "Rydym wedi cael tair blynedd wych yn gweithio gydag Ian a'i dîm arbennig.

"Bu'n bartneriaeth Cymru gyfan lawen, sydd wedi cynnwys ein staff, ein criw a'n gwirfoddolwyr ledled y wlad."

Ychwanegodd: "Mae cydweithio fel hyn yn allweddol i bopeth a wnawn, gan helpu i gadw ein hofrenyddion yn yr awyr a cherbydau ymateb cyflym ar y ffordd.

Mae hyn yn cyfateb i gost o ddelio â deunaw digwyddiad. Maen nhw wir yn achub bywydau."

Daeth Ian Rickman, sydd newydd ei ailethol yn Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru, i faes awyr yr Elusen yn Nafen ddydd Mawrth 14 Gorffennaf 2026, lle cyflwynodd siec.

Dywedodd Mr Rickman: "Rwy'n hynod falch o'r hyn rydyn ni wedi'i gyflawni gyda'n gilydd i gefnogi Elusen Ambiwlans Awyr Cymru dros y tair blynedd diwethaf.

"Mae'r llwyddiant gwych hwn yn adlewyrchu haelioni ac ysbryd cymunedol aelodau a staff Undeb Amaethwyr Cymru a chymunedau gwledig ledled Cymru, ac rwy'n diolch o galon i bawb a gefnogodd ein hymdrechion codi arian.

P'un a oedd pobl yn bresennol yn un o'n digwyddiadau brecwast ym mis Ionawr, yn prynu tocyn ar gyfer ein raffl am gerbyd bob tir neu roi cyfraniad dros baned mewn sioe amaethyddol leol, mae pob rhodd wedi helpu i wneud yr ymgyrch hon yn llwyddiant. Mae gweithredoedd di-rif o garedigrwydd a haelioni ledled Cymru wedi ein galluogi i godi'r arian hanfodol hwn.

Mae Ambiwlans Awyr Cymru yn darparu gwasanaeth amhrisiadwy sy'n achub bywydau, yn enwedig yn ein cymunedau gwledig, ac mae wedi bod yn fraint cefnogi'r elusen.

"Rwy'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi ein cefnogi ni, ac rydw i'n gwybod y bydd eu haelioni yn helpu Ambiwlans Awyr Cymru i ddarparu gofal critigol."

Ychwanegodd Dr Sue Barnes: "Mae yna gymaint o uchafbwyntiau wedi bod yn ystod ein partneriaeth. Diolch i Undeb Amaethwyr Cymru, ei aelodau a'i gefnogwyr, byddwn yn parhau i fod yno i bobl ledled Cymru pryd bynnag a ble bynnag y bydd ein hangen arnynt. Diolch yn fawr."



# Ei Uchelder Brenhinol, Tywysog Cymru yn dathlu 25 mlynedd o Ambiwlans Awyr Cymru mewn Gala Codi Arian

**Mae Ei Uchelder Brenhinol, Tywysog Cymru wedi canmol effaith Elusen Achub Bywydau Ambiwlans Awyr Cymru, wrth iddo ymuno â chefnogwyr i ddathlu pen-blwydd yr elusen yn 25 oed mewn Gala arbennig ddydd Gwener 26 Mehefin.**

Roedd Noddwr Brenhinol yr Elusen yn bresennol yn y digwyddiad pwysig, a ddaeth â gwirfoddolwyr, cleifion, aelodau o'r criw, partneriaid a chefnogwyr at ei gilydd i ddathlu 25 mlynedd o ddarparu gofal critigol ledled Cymru. Cyflwynwyd y Gala gan y cyflwynydd teledu a radio, Jason Mohammed.

Dros y 25 mlynedd diwethaf, mae Ambiwlans Awyr Cymru wedi datblygu o fod yn un hofrennydd oedd yn gweithredu oriau cyfyngedig, i fod yn wasanaeth 24/7 cenedlaethol sy'n darparu gofal uwch o safon ysbyty, lle bynnag y bo angen, e.e. ar ochr y ffordd, mewn cartrefi, ar lethrau'r mynyddoedd ac ar yr arfordir. Erbyn hyn,





**Mae'r Elusen wedi gwneud dros 57,000 o deithiau, gan ddarparu triniaeth sy'n achub bywyd yn rhai o'r amgylchiadau mwyaf heriol a rhoi'r cyfle gorau posibl i gleifion oroesi a gwella.**

Wrth siarad yn y digwyddiad, a gynhaliwyd yn y Celtic Manor yng Nghasnewydd, talodd Ei Uchelder Brenhinol deyrnged i'r gwasanaeth a'r rhai sy'n rhan ohono.

Dywedodd: "Ers 25 mlynedd, mae Ambiwlans Awyr Cymru yn darparu gwasanaeth hanfodol i bobl a chymunedau ledled Cymru. Mewn eiliadau dychrynllyd, mae ei chriwiau wedi dod â gofal critigol uwch yn syth at y bobl sydd â'r angen mwyaf, gan gynnig cymorth a gobaith.

Tynnodd sylw hefyd at statws byd-eang yr Elusen a'i hymrwymiad i welliant parhaus: "Mae Ambiwlans Awyr Cymru wedi ennill enw da yn rhyngwladol am y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu, ac am ei hymrwymiad i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth sy'n helpu i sicrhau'r gofal gorau posibl i bobl Cymru."

Roedd y Tywysog hefyd yn cydnabod ymroddiad gwirfoddolwyr, staff a chefnogwyr, eu hymrwymiad nhw sydd wedi cynnal yr Elusen ac wedi cryfhau ei chysylltiad â chymunedau ledled Cymru.

Roedd y Gala hefyd yn cynnwys straeon pwerus gan gleifion a gweithgareddau codi arian, gan gynnwys ocsiwn byw yn cynnig profiadau a gwobrau unigryw.

Roedd y digwyddiad yn bosibl diolch i'w brif noddwyr: Grŵp Ascona, Gama Aviation, Bibado a Chyfreithwyr Redkite.

ASCONA GROUP

BIBADO mealtimes matter

Gama Aviation

redkite solicitors • cyfreithwyr







Roedd y noson yn cynnwys stori bwerus a theimladwy iawn gan Alan Owen , cyn-glaf, a rannodd brofiad ei deulu o oroesi a gwella yn dilyn ataliad ar y galon ym mis Ebrill 2022. Ar ôl llewygu wrth chwarae 'pêl-droed cerddedol', nid oedd calon Alan yn curo am wyth munud, cyn iddo gael ei adfywio gan y bobl o'i gwmpas. Rhoddodd clinigwyr Ambiwlans Awyr Cymru ofal critigol uwch iddo yn y fan a'r lle, gan ei sefydlogi er gwaethaf difrifoldeb ei gyflwr a chydlynu triniaeth bellach a achubodd ei fywyd yn y pen draw.

Wrth fyfyrio ar ei brofiad, dywedodd Alan: "Does dim dwywaith na fyddwn i yma heddiw oni bai am Ambiwlans Awyr Cymru."

Siaradodd yn deimladwy hefyd am yr effaith ehangach ar anwyliaid, gan dynnu sylw at brofiad teuluoedd fel 'cyd-oroeswyr': "Mae eu trawma yn wahanol, ond yr un mor real."

Wrth bwysleisio'r rhodd barhaol y mae'r gwasanaeth wedi'i rhoi iddo, ychwanegodd: "Rydw i wedi cael mwy o amser. Amser gyda fy nheulu. Fyddwn i ddim wedi cael yr amser hwnnw oni bai am yr elusen hon."

Yn gynharach gyda'r nos, bu'r Prif Weithredwr Dr Sue Barnes yn myfyrio ar daith yr Elusen a thrawsnewidiad y gwasanaeth ers ei lansio yn 2001.






Pwysleisiodd Dr Barnes hefyd rôl cefnogaeth y cyhoedd o ran cynnal y gwasanaeth. Dywedodd: "Mae datblygiad yr Elusen yn fwy rhyfeddol byth gan ei bod yn cael ei phweru gan genedl o ychydig dros dair miliwn o bobl. Gwlad fach, gyda chalon enfawr. Felly, wrth i ni ddathlu'r garreg filltir hon, rydyn ni'n gwneud hynny gyda balchder a diolchgarwch.

"I bawb sydd wedi rhoi eu hamser, eu harbenigedd, eu hymrwymiad a'u cefnogaeth, diolch yn fawr.

"Mae'r gwasanaeth hwn yn eiddo i bobl Cymru. Ni yw eich Ambiwlans Awyr, ac rydyn ni'n bodoli, diolch i chi."

Diolch i haelioni'r gwesteion, noddwyr a chefnogwyr, cododd y Gala swm anhygoel o £180,000, gan gynnwys nawdd hael o £85,000 gan gefnogwyr corfforaethol.

Wrth i Ambiwlans Awyr Cymru edrych ymlaen tua'r dyfodol, roedd y digwyddiad yn dathlu 25 mlynedd o wasanaeth a hefyd yn tynnu sylw at yr angen parhaus am gymorth, i sicrhau bod modd cyrraedd mwy o gleifion ledled Cymru yn ystod eu cyfnod o angen.









# Bydd cefnogwr oes yn gadael rhodd mewn ewyllys i elusen a achubodd ei bywyd

**Mae gwraig fferm ddiolchgar y cafodd ei bywyd ei achub gan Ambiwlans Awyr Cymru wedi addo gadael rhodd yn ei hewyllys fel diolch olaf am y bywyd y mae hi wedi ei gael – bywyd a allai fod wedi dod i ben o flaen ei amser heb gymorth y gwasanaeth.**

Mae Sue Davies, o Aberhonddu, wastad wedi bod yn gefnogwr brwd o'r Elusen.

Pan ddathlodd Sue a'i gŵr Gareth eu pen-blwydd priodas arian ym mis Mai 2009, cynhaliodd y cwpl barti a gofyn am roddion i Ambiwlans Awyr Cymru yn lle anrhegion. Fe wnaethon nhw godi dros £3,000 i'r Elusen sy'n achub bywydau.

Ychydig a wyddai Sue a'i theulu y byddai meddygon ambiwlans awyr, bum mis yn ddiweddarach, yn achub ei bywyd. Cafodd Sue ddamwain ar feic cwad ar fferm y teulu. Fe'i taflwyd hi i'r awyr a chafodd ei gadael â gwddf wedi torri.

Treuliodd ddau fis yn yr ysbyty, ac yna fis arall mewn uned asgwrn cefn arbenigol.

Ar ôl pum llawdriniaeth a llawdriniaeth adluniol ar ei hwyneb, aeth Sue ymlaen i wella'n rhyfeddol.

Yn anhygoel, mae hi wedi cymryd rhan yn nigwyddiad Beicio 100km yr Elusen ers y dechrau, gan deithio o Gaerdydd i'w phencadlys yn Nafen. Mae hi hefyd wedi cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau codi arian ers 2009, gan gynnwys Cerdded Cymru, y digwyddiad Coffi a Chacen, a chynnal



llawer o rafflau. Mae hi wedi codi miloedd o bunnoedd i Ambiwlans Awyr Cymru.

Yn ogystal â chynllunio gadael rhodd yn ei hewyllys ar gyfer yr Elusen, bydd Sue hefyd yn gofyn i unrhyw roddion gael eu rhoi i Ambiwlans Awyr Cymru yn lle blodau yn ei hangladd.

Wrth fyfyrio ynghylch pam ei bod eisiau cefnogi'r Elusen y tu hwnt i'w hoes, dywedodd Sue: "Dyma fy ffordd olaf i ddweud diolch am y bywyd rydw i wedi'i gael – bywyd a fyddai wedi dod i ben o flaen ei amser hebddynt. Hwn hefyd fydd fy niolch mawr olaf i Ambiwlans Awyr Cymru. Gadael arian yn fy ewyllys a gofyn am roddion yn fy angladd yw'r peth olaf y gallaf ei wneud.

"Fyddwn i ddim yma heb Ambiwlans Awyr Cymru, a byddaf yn ddiolchgar am byth.

"Mae'r gwasanaeth yn gwbl hanfodol i bobl Cymru. Efallai am ein bod yn byw mewn ardal wledig, mae'n taro'n tant yn fwy â mi. Mae mor bwysig oherwydd ein tirwedd a'n poblogaeth, a sut mae pobl ar wasgar. Edrychwch ar y bywydau a fyddai'n cael eu colli heb Ambiwlans Awyr Cymru.

"Dydw i ddim yn gwybod sut fyddwn i'n dal yn fyw hebddyn nhw. Roedd gadael rhodd yn fy ewyllys yn rhywbeth gwbl amlwg.

"Alla i ddim diolch digon i Ambiwlans Awyr Cymru; fe wnaethon nhw achub fy mywyd."

Dywedodd Jane Griffiths, Swyddog Codi Arian Dyngarwch a Phartneriaethau yn Ambiwlans Awyr Cymru: "Mae Sue yn gefnogwr oes gwerthfawr ac mae cael ein cofio yn ei hewyllys yn anrhydedd go iawn. Bydd ei rhodd garedig yn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth sy'n achub bywydau yn parhau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."

*"Dydw i ddim yn gwybod sut fyddwn i'n dal yn fyw hebddyn nhw. Roedd gadael rhodd yn fy ewyllys yn rhywbeth gwbl amlwg"*





**Os ydych chi'n ystyried gadael rhodd yn eich Ewyllys, neu os ydych chi eisoes wedi dewis cefnogi Ambiwlans Awyr Cymru yn y ffordd arbennig hon, byddai Jane, ein Swyddog Codi Arian Gwaddol, yn falch iawn o glywed gennych chi. Os oes gennych chi gwestiwn, os hoffech chi drafod eich cynlluniau, neu os hoffech chi roi gwybod i ni beth yw eich bwriad, cysylltwch â ni. Ffoniwch 0300 0152 999 neu e-bostiwch legacy@walesairambulance.com**

# Mae un o hoelion wyth yr elusen yn cael cydnabyddiaeth arbennig ar ôl 20 mlynedd o wirfoddoli ar gyfer gwasanaeth sy'n achub bywydau!

**Mae rhywun sy'n gwirfoddoli ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru wedi cael ei gydnabod yng Ngwobrau Uchel Siryf Gorllewin Morgannwg 2026.**

Roedd Graham Hirst, sy'n 86 oed ac o Abertawe, ymhlith y rhai a gafodd cydnabyddiaeth hwn mewn digwyddiad arbennig a gynhaliwyd yn Eglwys y Glannau yn SA1 yn ddiweddar.

Aeth i'r gwobrau gyda'i ferch Nichola, a ddywedodd ei bod yn 'falch iawn' o'i thad.

Dywedodd Graham: "Mae wedi bod yn deimlad gwych i fod yn rhan o ddigwyddiad mor hyfryd, ond rydw i'n un o nifer o wirfoddolwyr sy'n cefnogi Ambiwlans Awyr Cymru, ddydd ar ôl dydd.

"Doeddwn i ddim yn disgwyl dim byd fel hyn am yr hyn rydw i'n ei wneud. Rydw i'n ei wneud oherwydd fy mod i'n ei fwynhau; rydw i'n cael llawer o foddhad o gefnogi'r gwasanaeth anhygoel hwn sy'n achub bywydau.

"Roedd cael y wobr hon yn dipyn o syndod. Rydw i'n fachgen ystafell gefn, ac yn hapus gyda hynny."

Mae Graham wedi cael gyrfa amrywiol, gan wasanaethu gyda'r Llynges Fasnachol fel peiriannydd, ac yna gweithio fel fforman i Alcoa am ddeng mlynedd ar hugain.

Dechreuodd weithio i'r Elusen mewn warws, yn gyrru fan ac yn helpu i osod siop gyntaf yr Elusen, ond y dyddiau hyn rydych chi'n fwy tebygol o ddod o hyd iddo ym Mhencadlys Dafen yn didoli'r blychau casglu.

Dywedodd Graham: "Am yr 11 mlynedd gyntaf, cefais gefnogaeth lawn fy ngwraig Vera. Yn anffodus bu farw chwe blynedd yn ôl, ac ers hynny, er fy mod i'n helpu'r elusen, mae'r elusen wedi fy helpu i drwy fy nghadw'n brysur."

Cytunodd Nichola ac ychwanegodd: "Dim ond fy nhad a minnau sydd ar ôl, ond pe bai fy mam yn dal yma, byddai'n falch iawn ohono.

"Ers iddi farw, dwi'n meddwl bod ei waith gwirfoddol wedi ei gadw i fynd ac wedi rhoi pwrpas iddo."

Mae'n cyfaddef 'rodd yna ychydig o ddagrau', wrth iddi wylio ei thad yn cerdded i'r podiwm i gael ei gydnabyddiaeth arbennig.

Dywedodd Nichola: "Seremoni wobrwyo yw un o'r llefydd olaf y byddech chi'n disgwyl gweld fy nhad.

"Mae'n gwneud yr hyn mae'n ei wneud oherwydd ei fod wrth ei fodd; mae'n ei gadw'n brysur, ac i fod yn onest, rwy'n credu ei fod yn ei gadw'n ifanc."

Dywedodd Diana Stroia, a oedd yn Uchel Siryf Gorllewin Morgannwg tan yn ddiweddar: "Ers bron i ddau ddegawd, mae Graham – sy'n adnabyddus i lawer yn Abertawe am ei hetiau cowboi a'r ffaith fod ganddo bob amser wên ar ei wyneb – wedi bod wrth galon gwirfoddoli i Elusen Ambiwlans Awyr Cymru.

"Mae wedi cefnogi'r Elusen ers y dyddiau cynnar, ac mae ei ymrwymiad wedi golygu ei fod wedi ymgymryd â nifer o rolau.

"Mae gwirfoddoli hefyd wedi rhoi pwrpas a chysylltiad i Graham yn ystod cyfnodau personol anodd, ac mae'r Elusen yn gyfoethocach am ei bresenoldeb.

"Yn syml iawn, mae'n enghraifft wych o ymroddiad a gwasanaeth cymunedol. Llongyfarchiadau ar y gydnabyddiaeth haeddiannol iawn hon."

Roedd cynrychiolwyr o Elusen Ambiwlans Awyr Cymru ymysg y gwesteion.

Dywedodd Dr Sue Barnes, Prif Weithredwr Ambiwlans Awyr Cymru: "Graham yw un o'n gwirfoddolwyr sydd wedi gwasanaethu hiraf ac mae'n anhygoel! Rydym i gyd mor falch ohono; mae'n un o hoelion wyth yr Elusen.

"Fel arfer, ef yw un o'r wynebau cyntaf a welaf ym mhencadlys Dafen, ac mae bob amser yn siriol.

"Mae Graham yn rhoi cymaint i'r Elusen, ond rwy'n gwybod ei fod yn cael llawer o fudd o'r hyn mae'n ei wneud hefyd. Fel y mae ef ei hun yn ei ddweud: 'Pan fydda i'n gweld yr hofrennydd yn codi... da ni'n rhan o hynny'.

"Mae'n wych ei weld yn cael ei anrhydeddu fel hyn, am ei ymroddiad i'n gwasanaeth sy'n achub bywydau."









"Doeddwn i ddim yn disgwyl dim byd fel hyn am yr hyn rydw i'n ei wneud. Rydw i'n ei wneud oherwydd fy mod i'n ei fwynhau; rydw i'n cael llawer o foddhad o gefnogi'r gwasanaeth anhygoel hwn sy'n achub bywydau."

# Dychmygwch hyn

## Lle dechreuodd y cyfan...


















Mae'n bleser gennym rannu rhai lluniau o flynyddoedd cynnar ein gwasanaeth.

# Rydych chi wedi Cerdded Cymru Eto – Diolch yn Fawr!

**Unwaith eto, mae teulu, ffrindiau, cydweithwyr a chefnogwyr wedi cymryd rhan yn y digwyddiad codi arian blynyddol Cerdded Cymru, gan godi swm anhygoel o £27,000.**

Mae'r her rithiol ac wyneb yn wyneb, sydd wedi bod yn cael ei chynnal ers saith mlynedd, wedi'i hanelu at bobl o bob oed a gallu. Roedd yn gyfle i gael sgwrs â theulu neu ffrindiau, neu osod her bersonol i chi eich hun wrth 'gerdded Cymru' at achos da.

Yn ogystal â'r heriau personol rydych chi wedi'u gosod i chi'ch hun, fe wnaethom gynnal tri digwyddiad ledled y wlad: Gŵyr, Cwm Elan a Phen y Gogarth.





Dyma'r flwyddyn gyntaf i ni gyflwyno teithiau cerdded Cwm Elan a Phen y Gogarth fel rhan o'r her.

Gwelsom gefnogwyr yn codi eu hesgidiau cerdded, unwaith eto, i ymuno â seren rygbi Cymru a llysgennad yr Elusen, James Hook, yn ystod teithiau cerdded ar hyd y Gŵyr. Roedd gan dros 100 o gyfranogwyr y dewis i gerdded 22, 10 neu 3 milltir gyda James, cyn chwaraewr rygbi rhyngwladol Llewod Prydain ac Iwerddon, ac aelodau o griw Ambiwlans Awyr Cymru.

Yn ystod y penwythnos canlynol, gwelwyd yr haul yn tywynnu ar gyfer teithiau cerdded Cwm Elan a Phen y Gogarth, a oedd yr un mor llwyddiannus.

Dywedodd Emily Bell, Cydlynydd Codi Arian Rhanbarthol: "Roedd hi'n wych gweld cymaint o bobl yn cerdded gyda'i gilydd dros y penwythnos i gefnogi'r Elusen. Rydw i eisoes yn edrych ymlaen at Gerdded Cymru 2027."









Nid yw byth yn rhy gynnar i gofrestru ar gyfer Cerdded Cymru 2027; gallwch wneud hynny drwy ein gwefan - **www.walesairambulance.com/walk-wales-2027**

# Saddle up and save lives!

## Ewch ar gefn eich beic i achub bywydau!

100km
for **Wales Air Ambulance**
ar gyfer **Ambiwlans Awyr Cymru**

6
SEP
MED



**Join us this September for our 100k cycle from Cardiff to Llanelli and help save lives**

Ymunwch â ni ym mis Medi ar gyfer ein taith feicio 100k o Gaerdydd i Lanelli a helpwch i achub bywydau

**£70**
**to enter**
i gofrestru

For terms and conditions or to sign up, visit
I ddarllen y telerau ac amodau neu i gofrestru, ewch i
***www.walesairambulance.com/cycle-100***